DARLLEN YN WELL

READING WELL

Darllen yn Well: Llyfrau ar Bresgripsiwn

Mae Darllen yn Well: Llyfrau ar Bresgripsiwn yn cynnig deunydd darllen defnyddiol, wedi ei achredu, i gefnogi iechyd a lles. Fe'i cyflwynir gan The Reading Agency mewn partneriaeth â Chymdeithas y Prif Lyfrgellwyr, a chyda chyllid gan Gyngor y Celfyddydau Lloegr a Wellcome. Cefnogir y cynllun gan bartneriaid amlwg ym maes iechyd a'i gyflwyno mewn llyfrgelloedd cyhoeddus.

Ers ei ddechrau yn 2013, mae Darllen yn Well wedi cyrraedd 778,000 o bobl ac fe'i cefnogwyd gan y cyhoedd yn ogystal â meddygon teulu, gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol a gweinidogion y llywodraeth, fel gwasanaeth iechyd defnyddiol wedi ei wreiddio yn y gymuned. Mae hefyd wedi bod o fudd sylweddol i gleifion. Mewn arolwg diweddar, dywedodd 96% o'r rhai a fenthycodd lyfr o'r rhestr dementia ei fod wedi bod yn ddefnyddiol. Gallwch ddarllen y gwerthusiad cyflawn o 2016–17 yma: https://readingagency.org.uk/resources/2480/

Mae Llywodraeth Cymru wedi dyfarnu cyllid i The Reading Agency i gyflwyno Darllen yn Well i lyfrgelloedd yng Nghymru mewn partneriaeth â Chymdeithas y Prif Lyfrgellwyr (Cymru) dros y ddwy flynedd nesaf, gan dechrau â Darllen yn Well ar gyfer dementia yn 2018, a ddilynir gan Darllen yn Well ar gyfer iechyd meddwl oedolion yn 2019.

Cafodd y model Llyfrau ar Bresgripsiwn yng Nghymru ei ddatblygu'n wreiddiol gan yr Athro Neil Frude. Datblygiad o'r model gwreiddiol hwn yw Darllen yn Well. Bydd Darllen yn Well ar gyfer dementia yn cael ei lansio yng Nghymru yng nghynhadledd y Gymdeithas Ewropeaidd ar gyfer Gwybodaeth Iechyd a Llyfrgelloedd (EAHIL) ar 11 Gorffennaf 2018 i gefnogi'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Dementia yng Nghymru. Bydd y cynllun ar gael yn llyfrgelloedd Cymru o'r haf ymlaen. Mae'r rhestr ddarllen yn cynnwys gwybodaeth a chyngor ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr, yn ogystal â ffuglen, cofiannau a llyfrau ffotograffig a ddefnyddir mewn therapi hel atgofion. Mae The Reading Agency yn gweithio gyda Chyngor Llyfrau Cymru i gyfieithu'r llyfrau i'r Gymraeg. Bydd casgliadau o lyfrau a deunydd cefnogol ar gael o lyfrgelloedd yn Gymraeg a Saesneg.

Reading Well Books on Prescription

Reading Well Books on Prescription provides accredited and helpful reading to support health and wellbeing. It is delivered by The Reading Agency working in partnership with the Society of Chief Librarians, with funding from Arts Council England and Wellcome. The scheme is endorsed by leading health partners and delivered in public libraries.

Llywodraeth Cymru Welsh Government

CYNGOR LLYFRAU CYMRU WELSH BOOKS COUNCIL

wellcome

Supported using public funding by ARTS COUNCIL ENGLAND

SCL Leading & Managing Public Libraries

THE READING AGENCY

Since its launch in 2013, Reading Well has reached 778,000 people and has been endorsed by the public as well as by GPs, mental health professionals and government ministers as a helpful community-based health service. It has also delivered significant patient benefit. In a recent survey, 96% of those who have borrowed a book from the dementia booklist said it had been helpful. You can read the full evaluation from 2016-2017 here: https://readingagency.org.uk/resources/2480/

The Reading Agency has been awarded funding from the Welsh Government to roll out Reading Well in Welsh libraries in partnership with SCL Wales over the next two years, beginning with Reading Well for dementia in 2018 and followed by Reading Well for adult mental health in 2019.

The Books on Prescription model was originally developed in Wales by Professor Neil Frude. Reading Well is a development of this original model. Reading Well for dementia will launch in Wales at the European Association for Health Information and Libraries (EAHIL) EAHIL conference on 11 July 2018 in support of the new Dementia Action Plan for Wales. The scheme will be available in Welsh libraries from the summer. The booklist includes information and advice for people living with dementia and their carers, as well as fiction, memoir and photographic books used in reminiscence therapy. The Reading Agency is working with the Welsh Books Council to translate books on the list into Welsh. Book collections and supporting materials will be made available from libraries in both English and Welsh.